# PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-DDWYRAIN

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

**Dyddiad:** Dydd Gwener 1 Chwefror

**Amser:** 9.30am hyd 12.30 pm

**Lleoliad:** Canolfan Chwaraeon y Sobell, Aberdâr

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Jonathan Morgan (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| David Davies | Mynwy |
| Ron Davies | Caerffili |
| Michael German | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Lynne Neagle | Torfaen |

| | |
|---|---|
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Sheila Davies | Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru |
| John Sheppard | Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru |
| Tim Beddoe | Bwrdd Croeso Cymru |
| Karen Thomas | Awdurdod Datblygu Cymru |
| David Davies | Awdurdod Datblygu Cymru |
| David Morgan | ELWa |
| Bryan Roderick | ELWa |
| Teresa Holdsworth | ELWa |
| Caroline Turner | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Sheila Maxwell | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Katherine Himsworth | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| David Howarth | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau agoriadol**

Rhoddodd Christine Chapman groeso ffurfiol i'r Pwyllgor i Aberdâr. Estynnodd groeso i bawb oedd yn bresennol yn cynnwys aelodau'r cyhoedd a'r cyflwynwyr.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn falch fod y cyfarfod yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Chwaraeon y Sobell, Aberdâr. Mynegodd ei ddiolch i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am gael defnyddio'r cyfleusterau ac i staff y ganolfan chwaraeon am eu cymorth.

Dywedodd y Cadeirydd mai thema'r cyfarfod oedd datblygu economaidd rhanbarthol, a fyddai'n cynnwys trafodaeth ar Gronfeydd Strwythurol Ewrop.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb**

1. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Lorraine Barrett, Peter Black, Alun Cairns, Jane Davidson, Janet Davies, Jocelyn Davies, Sue Essex, William Graham, Brian Hancock, Jane Hutt, Carwyn Jones, Huw Lewis a Rhodri Morgan.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr SEWR-06-01 (min)**

2. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr.

**Eitem 3: Sesiwn drafod agored**

3.1 Codwyd y materion canlynol gan aelodau'r cyhoedd:

- Yr angen i ddatblygu system drafnidiaeth integredig i hwyluso twf economaidd yng nghymoedd y De-ddwyrain.
- Nifer a math y prosiectau sydd wedi eu cymeradwyo o fewn Amcan 1
- Y sefyllfa ar hyn o bryd o ran y trafodaethau rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chydffederasiwn Diwydiant Prydain ynghylch y ganolfan addysg arfaethedig i Ogledd Torfaen
- Cau ysgolion yng Ngogledd Torfaen a'r sefyllfa o ran y Fenter Cyllid Preifat
- Rôl yr iaith Gymraeg yn cyfrannu at ddatblygu economaidd

3.2 Mewn ymateb i'r uchod codwyd y pwyntiau canlynol:

- Teimlai'r Pwyllgor y byddai gwaith pellach yn ofynnol ac y byddai angen buddsoddi sylweddol i wella'r cysylltiadau trafnidiaeth yn y cymoedd, yn enwedig y rhwydwaith rheilffyrdd. Byddai'n rhaid datblygu seilwaith cadarn er mwyn gallu bwrw ymlaen â datblygiadau i'r dyfodol. Nodwyd bod mater trafnidiaeth yn y cymoedd wedi ei godi gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd.

- Cytunai'r Aelodau ei bod yn bwysig cynyddu hyblygrwydd a chael y gwasanaeth trên rhwng y cymoedd a Chaerdydd i redeg yn fwy aml. Byddai hyn yn ei gwneud yn fwy posibl cymudo a gallai helpu i ddenu pobl fusnes i'r ardal. Byddai hefyd yn gwella mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau yng Nghaerdydd, yn cynnwys digwyddiadau a gynhelir yn Stadiwm y Mileniwm a Chanolfan newydd y Mileniwm sydd yn yr arfaeth.

- Teimlai'r rhan fwyaf o'r Aelodau fod Cronfeydd Strwythurol Ewrop wedi llwyddo hyd yma i annog a hwyluso adfywio economaidd ac i roi hwb newydd i'r De-ddwyrain. Byddai'n bwysig annog cyfranogiad pellach a rhoi cyhoeddusrwydd i lwyddiant partneriaethau a phrosiectau lleol. Roedd 453 o brosiectau i gyd wedi eu cymeradwyo hyd yma fel rhan o'r rhaglen Amcan 1. Roedd gwybodaeth yngln â'r prosiectau hyn ar gael ar wefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

- Roedd yn hanfodol fod y cyllid sydd ar gael drwy Gronfeydd Strwythurol Ewrop i dywys y rhaglen Amcan 1 yn ei blaen yn ychwanegol at y buddsoddiad a ddarparir gan Drysorlys y DU a'r Cynulliad. Byddai'n rhaid i'r buddsoddi yn yr ardaloedd hyn barhau ar ôl 2006 er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a galluogi prosiectau i barhau i wneud gwahaniaeth o fewn cymunedau.

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â defnyddio'r Fenter Cyllid Preifat (PFI) fel ffordd o gynhyrchu cyllid i'w fuddsoddi mewn ysgolion. Awgrymwyd y dylid defnyddio PFI lle nad oes cyllid cyfalaf amgen i'w gael. Fodd bynnag, teimlai rhai Aelodau nad yw'r math hwn o gyllid yn gost-effeithiol yn y tymor hir gan y byddai'n rhaid gwneud taliadau refeniw dros oes y contract.

- Nododd y Pwyllgor fod y Pwyllgor Diwylliant wedi derbyn tystiolaeth gan Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru fel rhan o'i adolygiad polisi o'r iaith Gymraeg. Câi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant ei gyhoeddi erbyn haf 2002, a byddai'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg yn ymateb wedyn i'r argymhellion fydd yn yr adroddiad.

- Teimlid y byddai hyrwyddo Cymru fel gwlad ddwyieithog yn cael effaith gadarnhaol ar dwristiaeth. Byddai'n bwysig annog siaradwyr Cymraeg ifanc i ddatblygu gyrfa mewn twristiaeth ac i gyfleoedd hyfforddi priodol fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn

ogystal, byddai'n rhaid datblygu'r Gymraeg fel iaith dechnegol, y gellid ei defnyddio drwy'r sector busnes. Roedd yna bosibiliadau pellach i ddatblygu cysylltiadau addysg a busnes a fyddai'n atgyfnerthu dwyieithrwydd, er enghraifft, cynnig lleoliadau gwaith i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.3 Dywedodd y Cadeirydd y byddai gweddill cwestiynau'r cyhoedd yn cael eu cyfeirio at y Gweinidog perthnasol am ymateb ysgrifenedig manwl.

**Eitem 4: Datblygu Economaidd Rhanbarthol**

4.1 Amlinellodd y Dirprwy Weinidog dros Ddatblygu Economaidd gyflwr economi'r De-ddwyrain a'r newidiadau a oedd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf. Crynhodd rai o'r mesurau oedd yn cael eu cymryd gan y Cynulliad, ei gyrff ac asiantaethau eraill i gynorthwyo twf economaidd yn y rhanbarth.

4.2 Dywedodd Sheila Davies fod Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru (y Fforwm) wedi bod yn ymwneud ag astudiaeth ar leoli strategol a brand a fyddai'n help i farchnata a hyrwyddo'r rhanbarth yn ogystal â denu mewnfuddsoddiad. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys ymchwil a dadansoddi, yn cynnwys cyfweliadau manwl â phartneriaid allweddol, cwmnïau o fewn y rhanbarth a buddsoddwyr o'r tu allan i Gymru. Canfu fod gwerth am arian yn gysyniad allweddol i fusnesau. Yn ogystal, roedd y term ‘Capital Wales’ a'r is-bennawd ‘Enter the Dragon Economy’ yn cael eu hargymell fel rhan o'r ymgyrch farchnata a hyrwyddo. Yn dilyn yr ymgynghoriad terfynol, byddai'r ymgyrch yn cael ei lansio ar y cyd gan y Fforwm a'i bartneriaid.

4.3 Dywedodd Tim Beddoe fod twristiaeth yn cyfrannu'n sylweddol at economi’r De-ddwyrain ac at greu swyddi. Dywedodd y byddai'r Bartneriaeth Dwristiaeth Ranbarthol yn gyfrifol am baratoi cynllun busnes ac y byddai'n gweithio ar sail strategaeth a oedd yn cael ei hadolygu ar y pryd. Amcanion y Strategaeth Dwristiaeth Ranbarthol oedd hyrwyddo Cymru a'r rhanbarth yn fwy effeithiol; gwella ansawdd y cynnyrch; hyrwyddo proffesiynoldeb ac arloesi; a mynd ati'n frwd i ymdrin â datblygu mewn modd cynaliadwy. Amlinellodd Tîm Beddoe nifer o brosiectau allweddol o fewn y De-ddwyrain. Tynnodd sylw at feysydd twf a oedd wedi'u nodi o fewn y rhanbarth ynghyd â meysydd datblygu cynnyrch posibl.

4.4 Amlinellodd Karen Thomas y cymorth busnes yr oedd yr Awdurdod Datblygu yn ei ddarparu yn y De-ddwyrain. Dywedodd fod Adroddiad Driscoll, ffrwyth adolygiad y Cynulliad o'r cymorth i fusnesau, wedi tynnu sylw at bryderon cwsmeriaid yngln â dyblygu gwasanaethau cymorth, nad yw'r gwaith cyfeirio a wneir yn glir a materion ansawdd. Teimlid bod angen eglurder yngln â phwy sy'n darparu cyngor a sut mae cyrchu at y cyngor hwnnw. Yn ogystal, pwysleisiai'r adroddiad bwysigrwydd partneriaeth. Dangosodd pa gymorth busnes sydd ar gael ar lefel leol. Byddai'n bwysig osgoi gorgyffwrdd yn y gwasanaethau a ddarparir a sicrhau

cysondeb yn y gwaith tra'n cadw digon o hyblygrwydd i ateb anghenion unigol.

4.5 Amlinellodd David Morgan gyfrifoldebau ELWa am y polisi addysg ôl-16 drwyddo draw yng Nghymru, ac am ei gyllido. Dywedodd fod ELWa yn chwarae rhan bwysig yn datblygu gallu economaidd yn y De-ddwyrain a bod hynny'n cael ei seilio ar addysg a hyfforddiant effeithiol. Roedd dealltwriaeth dda o Economeg yn hanfodol wrth gynllunio'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant. Byddai'n bwysig cynyddu niferoedd y rhai sydd yn dysgu a lefel ddysgu pobl mewn gwaith a'r rheini sy'n weithredol yn economaidd. Byddai'n rhaid cynyddu'r galw am ddysgu a sicrhau bod y cyflenwad cyfleoedd dysgu yn gallu ymateb yn hyblyg ac o fewn amserlenni realistig. Amlinellodd David Morgan nifer o fesurau a fyddai'n ofynnol i roi sylw i'r materion hyn. Yn ogystal, dangosodd pa waith yr oedd ELWa yn ei wneud ar hyn o bryd yn y rhanbarth.

4.6 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r angen i isrannu rhanbarth y De-ddwyrain er mwyn cydnabod y bwlch economaidd rhwng y cymoedd a Chaerdydd. Awgrymwyd fod angen dwy strategaeth wahanol i dywys datblygu economaidd yn ei flaen yn yr ardaloedd daearyddol hyn. Yn ogystal, dylid sefydlu mecanwaith priodol, megis Bwrdd Polisi Economaidd, i sicrhau bod golwg gyffredinol strategol ehangach yn cael ei chadw ar bethau. Dywedodd Karen Thomas fod y ddwy ardal yn gyd-ddibynnol yn economaidd er bod angen atebion ac amcanion gwahanol arnynt, ac y byddai angen strategaethau di-fwlch arnynt.

- Codwyd pryder gan y Pwyllgor yngln â'r lefelau uchel o amddifadedd yng nghymoedd y De-ddwyrain. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, byddai'n rhaid cynyddu'r buddsoddiad a'r gwariant cyhoeddus yn yr ardaloedd hyn. Teimlai rhai Aelodau ei bod yn bwysig ystyried gwasgaru mwy ar wasanaethau cyhoeddus ledled y rhanbarth a lleoli strwythurau yn y cymoedd. Awgrymwyd y gallai datblygu rhagor ar Gaerdydd yn y dyfodol fod yn niweidiol i'r cymoedd.

- Cydnabuwyd rôl Mentrau Cymuned a Chwmnïau Cydweithredol a'r cyfraniad cadarnhaol a wnânt i ddatblygu economaidd mewn rhai ardaloedd yn y rhanbarth, yn enwedig yn Rhondda Cynon Taf.

- Roedd angen parhau i fuddsoddi yng nghoridor yr M4, yn enwedig yng nghyffiniau Casnewydd.

4.7 Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr o Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru ac ELWa am eu cyflwyniadau ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

**Eitem 5: Cronfeydd Strwythurol Ewrop**

5.1 Croesawodd y Cadeirydd y cynrychiolwyr o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i'r cyfarfod.

5.2 Amlinellodd Caroline Turner yr ystod o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd oedd ar gael i gynorthwyo i ddatblygu economi ac adfywio rhanbarth y De-ddwyrain.

5.3 Gwnaeth y pwyntiau canlynol:

- Mae'r cyllid sydd ar gael i'r rhaglen Amcan 1 yn gyfyngedig o'i chymharu â ffynonellau cyllido eraill. Roedd yn bwysig fod prosiectau yn bodloni'r meini prawf cymhwyso a bod y prosiectau iawn yn cael eu dethol er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r economi leol. Roedd amrywiaeth eang o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo, yn ymledu ar hyd ac ar led ardal ddaearyddol gyfan y De-ddwyrain. Câi prosiectau Amcan 1 eu cymeradwyo ar lefel leol ac ar lefel Cymru-gyfan.

- Partneriaethau a strategaethau ar bob lefel oedd yr egwyddorion allweddol y mae trefn Cronfeydd Strwythurol Ewrop wedi'i seilio arnynt. Teimlid y byddai'r rhain yn sicrhau defnydd mwy effeithiol o gyllid. Byddai gwella'r cysylltiadau rhwng partneriaethau lleol a rhanbarthol yn sicrhau cynnydd pellach y rhaglenni i'r dyfodol. Byddai hefyd yn bwysig datblygu gallu o fewn sefydliadau ledled yr awdurdodau lleol er mwyn manteisio'n llawn ar y cyllid sydd ar gael.

- Rhagwelid y byddai cronfa ddata newydd wedi ei sefydlu erbyn haf 2002 fel bod modd monitro a gwerthuso prosiectau yn effeithiol. Byddai hyn yn caniatáu dadansoddi gwybodaeth yn fanwl a nodi, ar sail resymegol gadarn, feysydd lle mae angen gwella. Byddai hyn hefyd yn golygu bod modd llunio cymariaethau yn haws rhwng rhanbarthau.

5.4 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Codwyd pryder fod Gogledd Cymru wedi elwa llawer mwy na'r cymoedd o Gronfeydd Strwythurol Ewrop. Teimlid mai'r ardaloedd lleiaf difreintiedig oedd yn derbyn y cymorth mwyaf. Nododd yr Aelodau fod Gogledd Cymru wedi mynd ati'n llwyddiannus i sefydlu trefn gydweithio a'i fod wedi cyflwyno nifer fawr o geisiadau is-ranbarthol. Roedd hyn yn galluogi'r rhanbarth i symud ymlaen yn fwy cyflym a gallai, yn rhannol, egluro ei lwyddiant cymharol. Nodwyd bod partneriaethau o fewn y cymoedd yn gweithio gyda'i gilydd yn gynyddol a bod ceisiadau cyllido pellach yn cael eu paratoi.

- Roedd yn bwysig fod gwaith is-ranbarthol yn effeithiol. Câi hyn ei gyflawni drwy lefel uchel o gydweithredu, a chynnwys cyrff allweddol. Byddai'n rhaid canfod pa ffactorau

sy’n rhwystro gweithio drwy bartneriaeth ar lefel is-ranbarthol a, phe bai hynny'n briodol, darparu cymorth i helpu sefydliadau i oresgyn yr anawsterau hyn. Yn ogystal, byddai'n bwysig i awdurdodau lleol weithio'n agos gyda phartneriaethau rhanbarthol i sicrhau llwyddiant y rhaglenni, yn enwedig yn y cymoedd.

- Roedd yna rywfaint o bryder ei bod yn cymryd cyhyd i ddatblygu un gronfa ddata fanwl. Teimlai'r Pwyllgor y byddai cyflwyno un gronfa ddata yn golygu bod modd monitro partneriaethau yn ogystal â phrosiectau unigol yn fwy effeithiol. Byddai'n bwysig cyflwyno systemau monitro mwy effeithiol cyn gynted ag y mae hynny'n ymarferol.

- Teimlid y byddai cyfathrebu effeithiol yn hanfodol bwysig i lwyddiant Cronfeydd Strwythurol Ewrop i'r dyfodol. Rhaid oedd annog arloesi a sicrhau bod gwybodaeth a chyngor ar gael yn hwylus i'r sawl sydd â diddordeb.

- Nododd yr Aelodau nad oedd prosiectau Cronfeydd Strwythurol Ewrop ond megis dechrau ac mai yn Hydref 2000 y cymeradwywyd y prosiectau Amcan 1 a 3 cyntaf. Dechreuodd Amcan 2 flwyddyn yn ddiweddarach ac roedd dyraniadau cyllido tybiannol wedi'u rhoi i'r partneriaethau i gyd. Nodwyd bod nifer fawr o geisiadau Amcan 2 wedi dod i law'n barod a'u bod yn cael sylw.

- Nododd y Pwyllgor fod faint o amser a gymerir i brosesu ceisiadau yn dibynnu ar safon y ceisiadau ac i ba raddau yr oedd y prosiect wedi ei ddatblygu. 90 diwrnod oedd y targed ar gyfer cymeradwyo prosiectau.

- Teimlai'r Aelodau ei bod yn holl-bwysig mesur llwyddiant hirdymor y rhaglenni ac asesu pa mor effeithiol ydynt o ran creu datblygu economaidd cynaliadwy. Nodwyd bod y pwyslais ar hyn o bryd ar fonitro a gwerthuso partneriaethau a phrosiectau. Fodd bynnag, rhagwelid y byddai gwaith gwerthuso ehangach yn cael ei wneud y flwyddyn nesaf.

5.5 Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru am y cyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

**Eitem 6: Dyddiad y cyfarfod nesaf: 8 Mawrth**

6.1 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod nesaf yn canolbwyntio ar faterion anabledd ac y byddai'n cynnwys cyflwyniad gan y Comisiwn Hawliau Anabledd. Byddai'r cyfarfod yn nhymor yr haf yn canolbwyntio ar Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a materion trafnidiaeth.

6.2 Gofynnodd y Cadeirydd am farn yr Aelodau yngln â newid amser y cyfarfodydd yn y dyfodol. Cytunodd y Pwyllgor na ddylid newid amser y cyfarfodydd, sef o 9.30am hyd 12.30pm.